Adroddiad Cyfarfod 08:01:20
Marged Tudur – 'Aros mae'r mynyddau mawr'

Ar gychwyn degawd newydd sbon daeth Marged Tudur draw i'r gangen i sôn am ei thaith i Sagarmatha (enw lleol am 'Base Camp' Everest). Yn wreiddiol o Forfa Nefyn mae Marged bellach yn byw yng Nghaernarfon ac un o'i hoff bethau yw mynydda. Yn ei geiriau ei hun, "Profiad ydyw sy'n anodd ei wisgo â geiriau, profiad sy'n llesol i'r corff ac i'r meddwl, a thrwyddo, rwy'n llythrennol gerdded poenau, meddyliau ac atgofion."

Gan fod Yr Wyddfa yn 1,085 medr o uchel, a'r criw yn cerdded i uchder o 5,540 medr, gallwch feddwl fod cerdded yn Nepal yn brofiad go wahanol, ac roedd yn rhaid gofalu peidio cael salwch uchder. Clywsom sut yr oeddynt yn cerdded ryw 500 medr yn ddyddiol, a difyr iawn oedd gweld lluniau'r pontydd crog, y cerrig gyda'r ysgrifen sanctaidd arnynt a'r golygfeydd bendigedig. Mae'n amlwg ei fod wedi bod yn antur a hanner, ac roedd pawb wedi mwynhau'r cyflwyniad bywiog a diddorol.

Cawson wybodaeth am weithgareddau Merched Y Wawr gan ein Llywydd Mair Read. Gobeithio fod Mary Evans yn gwella ar ôl torri ei harddwrn, ac y bydd gŵr Cecile Roberts yn mendio ar ôl torri ei glun.

Mae Capel Cysegr yn cefnogi Banc Bwyd Caernarfon a gallwch ddod a chyfraniadau i'r Capel neu i'r cyfarfod nesaf.

Byddwn yn croesawu Rini Evans i sôn am ei busnes ym Meddgelert, 'The Soap Mine', yn y cyfarfod nesaf pan gawn gyfle i weld, arogli a phrynu sebonnau hardd. Cofiwch ddod a'ch ffurflenni ac arian cinio Gŵyl Ddewi gyda chi.